# PARC CENEDLAETHOL ERYRI: YMCHWILIO I FARN CYMUNEDAU LLEOL YNGHYLCH EFFEITHIAU CYMDEITHASOL Y PARC CENEDLAETHOL, NEWIDIADAU YN SGIL COVID-19 I FYWYD BEUNYDDIOL A DEWISIADAU RHEOLI POSIB YN YSTOD Y PANDEMIG


Adroddiad a baratowyd gan

Nikoleta Jones, James McGinlay, Jens Holtvoeth,
Vassilis Gkoumas, Chrisovaladis Malesios, Andreas Kontoleon

*University of Cambridge Conservation Research Institute*
*&*
*Department of Land Economy, University of Cambridge*




Llyn Mymbyr © APCE/SNPA

Mehefin 2020


*Derbyniodd y prosiect gyllid gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (CYE) dan raglen ymchwil Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd (Prosiect FIDELIO, cytundeb grant rhif 802605)*

# CYFLWYNIAD

Mae Parciau Cenedlaethol yn y DU yn bwysig oherwydd eu bioamrywiaeth uchel a gwerth eu tirwedd, a hefyd oherwydd eu buddiannau cymdeithasol-economaidd i bobl. Mae gan dirweddau gwarchodedig ran hanfodol mewn gwella iechyd corfforol a meddyliol, helpu i wella lles pobl a gwarchod gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol lleol. Mae'r pandemig COVID-19 yn ystod gwanwyn 2020 wedi peri i lawer o wledydd ledled y byd osod cyfyngiadau ar symudiadau a gweithgareddau beunyddiol y cyhoedd. Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa yn y DU, mae sawl parc cenedlaethol wedi peidio ag annog defnyddwyr o'r tu allan i'r ardal rhag mynd iddynt, gan mai'r neges allweddol oedd osgoi pob teithio diangen. Blaenoriaeth allweddol Awdurdodau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol oedd gwarchod iechyd a diogelwch cymunedau lleol a hefyd aelodau eu staff. Er mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael, disgwylir bod y cyfyngiadau hyn wedi newid y ffordd y mae cymunedau lleol yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol. Gan fod cyfyngiadau cloi ar hyn o bryd yn cael eu llacio ledled y DU (Mehefin 2020) mae nifer o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cymryd y camau angenrheidiol fel y gall pobl unwaith eto fwynhau'r tirweddau gwarchodedig hyn yn ddiogel dros y misoedd nesaf.

Er mwyn ymchwilio i'r newidiadau hyn, dosbarthwyd holiadur yn ystod Mehefin 2020 i gymunedau lleol ym Mharc Cenedlaethol Eryri neu'r cyffiniau. Yr oedd yr arolwg yn rhan o brosiect FIDELIO a gyllidwyd gan grant Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Nod yr holiadur oedd ymchwilio i: a) Farn pobl am Barc Cenedlaethol Eryri, b) Effaith COVID-19 ar fywyd beunyddiol ac c) Barn bobl am ddewisiadau posib o ran rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ystod y pandemig.

Dynodwyd Eryri yn Barc Cenedlaethol ym 1951 ac y mae'n ymestyn dros 2,132 km sgwâr (823 milltir sgwâr). Y mae yno amrywiaeth o dirweddau, gyda llawer ohonynt yn dra gwerthfawr o ran eu harddwch naturiol a'u llonyddwch. Mae'n debyg fod y Parc Cenedlaethol yn fwyaf adnabyddus am y mynyddoedd yr enwyd y parc ar eu hôl, gyda'r Wyddfa, mynydd uchaf Cymru, yn 3560tr (1085m). Heddiw, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gartref i ryw 26,000 o bobl, gyda 60% ohonynt â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Yn yr ardal, mae 24 o bentrefi bychain a 5 tref, ac yn ddiweddar, cafwyd y nifer uchaf o ymwelwyr - 4.48 miliwn yn 2018. Mae'r Wyddfa ei hun yn cynyddu mewn poblogrwydd bob blwyddyn, ac yn 2019 yr oedd bron i 600,000 o bobl wedi cerdded ar hyd ei llwybrau. O'r herwydd, mae cyfran uchel iawn o'r economi lleol yn dibynnu ar dwristiaeth.

Yn yr adroddiad cryno hwn, yr ydym yn cyflwyno canlyniadau cyntaf yr arolwg. Mae'r adroddiad ar gael hefyd ar wefan y prosiect: <https://www.fidelio.landecon.cam.ac.uk>. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar: fidelio@hermes.cam.ac.uk

# DISGRIFIAD BYR O'R DULLIAU

Anfonodd y tîm ymchwil 3000 o gardiau post at sampl o aelwydydd yn yr ardal a ddewiswyd ar hap, yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg. Amcangyfrifwyd bod hyn ychydig dros 10% o gyfanswm y boblogaeth. Cafodd yr arolwg ei hysbysebu hefyd ar-lein trwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau anffurfiol gyda help Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.





Yr oedd pedwar prif ran i'r holiadur. Yr oedd y rhan gyntaf yn ymchwilio i faterion ynghylch effeithiau cymdeithasol Parc cenedlaethol Eryri cyn ac yn ystod y pandemig. Yr oedd yr ail ran yn ymchwilio i ddewisiadau am reoli 'ail-agor' y parc a bywyd ar ôl uchafbwynt y pandemig i gymunedau lleol. Canoli yr oedd y trydydd rhan ar amrywiaeth o agweddau cymdeithasol, gan gynnwys gwerthoedd amgylcheddol, normau cymdeithasol ac ymddiried mewn sefydliadau. Yn rhan olaf y papur, casglwyd data demograffeg.

Cynhwyswyd cyfanswm o 740 ymateb yn y dadansoddiad terfynol ar ôl cau allan gofnodion gyda gwerthoedd coll. Daeth 106 o'r ddolen a hysbysebwyd yn y cardiau post ac yr oedd gweddill yr atebion o'r ddolen a hysbysebwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hynod debygol fod pobl wedi dod i wybod am yr arolwg trwy'r ddau ddull. Cyflwynir nodweddion demograffig y sampl terfynol yn rhan olaf yr adroddiad, ynghyd â chyfyngiadau posib. Defnyddiwyd SPSS 26.0 i ddadansoddi'r data. Bydd adroddiad manwl ynghylch gwahaniaethau sy'n dibynnu ar leoliad daearyddol yr ymatebwyr yn dilyn.

# CANLYNIADAU

## EFFEITHIAU CYMDEITHASOL Y PARC CENEDLAETHOL DROS Y PUM MLYNEDD DIWETHAF

**Yn gyffredinol, cafodd byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau effaith cadarnhaol ar gymunedau lleol**. Yr oedd a wnelo'r effeithiau mwyaf cadarnhaol a grybwyllwyd ag 'ymdeimlad o fod yn gysylltiedig â natur', ymwneud â gweithgareddau hamdden yn nhirweddau'r Parc Cenedlaethol a hefyd ar ansawdd bywyd. Mae'r effaith ar incwm personol yn gadarnhaol ond i raddau llai o gymharu â'r categorïau effaith eraill (Ffigwr 1).





**Ffigwr 1. Canfyddiadau am effeithiau cymdeithasol Parc Cenedlaethol Eryri dros y pum mlynedd a aeth heibio**
**(Gwerthoedd cymedrig, Cyfradd 1-5: 1 yn cynrychioli effaith negyddol a 5 effaith cadarnhaol)**

# EFFAITH CYFYNGIADAU COVID-19

Ym mis Mawrth 2020 daeth rheoliadau newydd di rym yng Nghymru oedd yn cyfyngu symudiadau a gweithgareddau beunyddiol pobl oherwydd COVID-19. Gofynnwyd i gyfranogwyr am effaith cyfyngiadau ehangach COVID-19 ar eu bywydau bob dydd. O'n dadansoddiad, mae'n amlwg fod y cyfyngiadau newydd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar gymunedau lleol ym Mharc Cenedlaethol Eryri gyda chymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol (Ffigwr 2). Yr effeithiau mwyaf cadarnhaol yw **nad yw llwybrau cerdded a beicio mor brysur** ag arfer a bod **nifer yr ymwelwyr wedi gostwng**. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol ar **incwm** a methu gallu **cymdeithasu** gyda phobl eraill fel o'r blaen (Ffigwr 2). Yn y cwestiynau penagored, ymysg rhai enghreifftiau ychwanegol a roddwyd gan ymatebwyr yr oedd:


- Diffyg gorlenwi yn y trefi, pentrefi a chefn gwlad
- Medru mwynhau cefn gwlad yn lleol heb dyrfaoedd
- Absenoldeb ymddygiad gwael gan rai ymwelwyr
- Mwy o gyfle i bobl leol ymwneud â'i gilydd gan gynnwys mwy o ddefnydd o'r Gymraeg

Yn fwy negyddol, mae 'Arhoswch yn Lleol' a'r 'rheol 5-milltir' yng Nghymru i rai wedi rhoi mwy o synnwyr o bwy sy'n lleol a phwy sydd ddim, sydd wedi cynyddu tensiynau cymdeithasol mewn rhai mannau.




**Ffigwr 2. Bywyd yn y cyfnod cloi (cymedrig, ystod gwerth: -2, 2)**

Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd sut mae'r **cyfyngiadau ar fynediad i'r Parc Cenedlaethol i ymwelwyr a phobl leol** wedi effeithio ar eu bywydau bob dydd. **Yn gyffredinol cafodd y cyfyngiadau hyn effaith negyddol ar draws llawer pwnc, yn enwedig incwm personol ac ymwneud â gweithgareddau hamdden** (Ffigwr 3). Fodd bynnag, gwella wnaeth cysylltiadau cymdeithasol, ac fe all hyn fod oherwydd diffyg ymwelwyr yn yr ardal sydd yn caniatáu i bobl leol fwynhau natur a chwrdd â thrigolion lleol eraill yn yr awyr agored.




**Ffigwr 3. Effaith cyfyngiadau COVID-19 cysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol (Gwerthoedd cymedrig, ystod –2, 2 *A fyddwch cystal â nodi isod sut y mae cau'r Parc Cenedlaethol wedi effeithio arnoch yn nghyswllt …)***

Pan ofynnwyd i bobl sut y mae'r ffaith eu bod yn byw gerllaw'r Parc Cenedlaethol wedi dylanwadu arnynt yn ystod y cyfnod cloi, dywedodd canran uchel fod byw gerllaw'r Parc Cenedlaethol yn *bwysig* neu yn *bwysig iawn* iddynt (54.8% a 23%, Cymharol bwysig: 12.8%, Ddim yn bwysig iawn: 5.6%, Ddim yn bwysig: 3.9%). Y prif resymau dros y lefel uchel o bwysigrwydd yw'r cyfle i fynd allan yn rhwydd i gerdded, dringo a beicio tra bod yr ardal yn dawel iawn gan nad oes llawer o ymwelwyr. Mae gan bobl hefyd ymlyniad cryf at yr ardal. Pan ofynnwyd i gyfranogwyr nodi ar gyfradd o 1-7 faint yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiad 'Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn golygu llawer i mi', y sgôr gyfartalog oedd 6.37 (o 7). Hefyd, yr oedd 45.5% o'r ymatebwyr wedi cyfrannu fel gwirfoddolwyr mewn gweithgaredd oedd yn helpu i warchod y Parc Cenedlaethol dros y 5 mlynedd a aeth heibio.

# DEWISIADAU RHEOLI YN YSTOD Y PANDEMIG COVID-19

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu dewisiadau o blith pedwar dewis gwahanol i reoli'r parc yn y dyfodol agos yn ystod y pandemig COVID-19. Hoffem nodi mai ym Mai 2020 y drafftiwyd yr adran hon, a'i bod felly yn berthnasol i'r amser hwnnw.

- **DEWIS A:** Ail-agor ardaloedd a chyfleusterau fesul cyfnod, o'r mannau lle ceir y lleiaf o ymwelwyr a lle mae risg isel o ledaenu'r feirws, i'r ardaloedd a'r cyfleusterau mwyaf poblogaidd/gyda'r niferoedd uchaf o ymwelwyr lle mae risg uwch o ledaenu'r feirws

- **DEWIS B:** Caniatau mynediad i'r Parc Cenedlaethol yn unig i bobl sy'n byw yn lleol am y tro

- **DEWIS C:** Caniatau mynediad i drigolion lleol a dim ond i nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr o'r tu allan i'r ardal bob dydd

- **DEWIS D:** Caniatau mynediad heb gyfyngiadau i bawb

Gallai ail-agor graddol ddigwydd naill o ran cyfnodau daearyddol (parthau a rhannau o'r Parc Cenedlaethol yn ail-agor yn gyntaf– Dewis A), neu o ran ardaloedd y caniateir i ymwelwyr deithio ohonynt (Dewis B). Nid yw'r cyntaf yn gwahaniaethu yn erbyn y llefydd y daw ymwelwyr ohonynt, ond fe wna Dewis B. Mae a wnelo dewisiadau C a D yn y bôn â dogni mynediad i ymwelwyr nad ydynt yn lleol, gyda Dewis C eto yn codi pwnc camwahaniaethu (lleol/heb fod yn lleol), tra bod Dewis D yn osgoi hyn.

Mesurwyd y rhai oedd o blaid y gwahanol ddewisiadau hyn ar gyfradd Likert 5-pwynt (yn amrywio o *Anghytuno'n gryf* i *Gytuno'n gryf*, Tabl 1). **Y dewis mwyaf poblogaidd yw ail-agor y Parc Cenedlaethol (yn ddaearyddol) yn raddol** (Dewis A) ac yna, cadw cyfyngiadau i ddefnyddwyr o'r tu allan i'r ardal yn y dyfodol agos (Dewis B).

**Tabl 1. Y gwahanol ddewisiadau o ran rheoli yn ystod COVID-19**

| | Anghytuno'n gryf (%) | Tueddu i anghytuno (%) | Heb gytuno nac anghytuno (%) | Tueddu i gytuno (%) | Cytuno'n gryf (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ail-agor graddol | 11.8 | 13.8 | 7.5 | 40.2 | 26.7 |
| Cyfyngiadau ar ddefnyddwyr o'r tu allan i'r ardal | 15.8 | 16.7 | 5.7 | 29.1 | 32.7 |
| Mynediad i bobl leol a nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr o'r tu allan i'r ardal | 29.9 | 28.6 | 11.5 | 21.3 | 8.6 |
| Agored i bawb | 44.4 | 19.5 | 6.9 | 15.7 | 13.6 |

***Ail-agor yn raddol***

Y dewis mwyaf poblogaidd yn ôl yr astudiaeth yw ail-agor Parc Cenedlaethol Eryri yn raddol. Yr oedd cyfanswm o 66.9% o ymatebwyr yn *tueddu i gytuno* neu'n *cytuno'n gryf* gyda dewis A. Derbyniwyd nifer fawr o sylwadau am y dewis hwn. Yma, rydym wedi categoreiddio'r prif bryderon a grybwyllwyd gan y sawl a gymerodd ran:

- **Dichonoldeb**: mae'r dewis hwn yn ofodol yn eithaf heriol i'w reoli, a nododd yr ymatebwyr y byddai angen ei fonitro'n sylweddol. Holodd y cyfranogwyr a oes adnoddau ar gael ar gyfer hyn.
- **Risg o ddryswch**: Mae'r canllawiau gwahanol rhwng Cymru a Lloegr ynghylch pa mor bell y caniateir i bobl deithio ac i ba ddiben eisoes wedi achosi cryn ddryswch yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Gan y byddai'r dewis hwn yn gymharol gymhleth (rhai ardaloedd a chyfleusterau ar agor, eraill heb fod) teimlai rhai pobl y byddai cyfleu pa ardaloedd sydd ar agor yn heriol ac y gallai achosi mwy o ddryswch. Nododd ymatebwyr mai'r cyfan a glywai pobl fyddai fod y Parc ar agor, ac y buasent yn cyrraedd heb unrhyw syniad o ba ardaloedd fyddai ar agor neu ar gau, gan achosi tagfeydd a dryswch.
- **Gorlenwi**: Teimlai nifer fawr o ymatebwyr na fyddai'r dewis hwn yn datrys problemau posib gyda gorlenwi. Byddai gorlenwi yn digwydd mewn ardaloedd fyddai'n agor yn raddol. Felly petai ardaloedd llai poblogaidd yn agor yn gyntaf, y cyfan a digwyddai fyddai'r tyrfaoedd yn symud i'r ardaloedd hynny, yr oedd y bobl leol yn eu hoffi am eu bod yn dawel.
- **Cyfleusterau**: Holodd rhai ymatebwyr a oedd gan y 'llefydd â llai o ymwelwyr' y cyfleusterau angenrheidiol i ymdopi â niferoedd mawr o ymwelwyr.
- **Risg o ddamweiniau**: Soniodd rhai ymatebwyr hefyd am y posibilrwydd y gallai agor rhai o'r llwybrau lleiaf poblogaidd olygu y gallai ymwelwyr fynd i ardaloedd mwy anodd i gerdded/dringo ynddynt, gan gynyddu'r risg o ddamweiniau.
- **Iechyd corfforol a meddyliol**: Yn gyffredinol, cafwyd llawer o sylwadau ynghylch rhoi blaenoriaeth i bobl leol a gadael iddynt gyrchu llwybrau lleol nad ydynt yn hysbys i'r cyhoedd y tu allan i'r ardal. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â phryderon am yr effaith mae'r cau presennol wedi gael ar iechyd corfforol a meddyliol cymunedau lleol.

Ar y cyfan, roedd Dewis A yn gwneud synnwyr greddfol i lawer o ymatebwyr, ac nid oedd yn codi problemau cydraddoldeb ynghylch pwy fyddai â hawl i fynd i'r Parc, ond roeddent hefyd yn gweld llawer o broblemau ymarferol ynghylch lleoliadau, ac y byddai angen rheoli hyn.

***Caniatau pobl leol yn unig i fynd i'r ardal am y tro***

Y dewis hwn oedd yr un nesaf mewn poblogrwydd. Yr oedd 61.8% o gyfranogwyr yn tueddu i gytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r Parc Cenedlaethol barhau ar agor i bobl leol am y tro, er yn cydnabod yn gyffredinol mai rhywbeth dros dro yn unig fyddai hyn cyn ail-agor yn llawn (Dewis D). Mater allweddol a grybwyllwyd gan nifer fawr o gyfranogwyr yw sut i ddiffinio rhywun lleol, a hefyd gan fod Eryri yn Barc Cenedlaethol y dylai fod ar agor i bawb. Gallai cyfyngu mynediad i rai pobl arwain at ymraniadau cymdeithasol a gwrthdaro rhwng gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr. Ar waethaf y pryderon hyn, teimlai nifer o ymatebwyr y byddai'n haws rheoli'r dull hwn o weithredu dan y rheoliadau argyfwng a'r amgylchiadau presennol, ac y byddai llai o ddryswch o'r herwydd. O'r ymatebion a dderbyniasom, ymddengys bod y

rhan fwyaf o bobl yn teimlo mai dewis tymor-byr yn unig fyddai hyn oherwydd bod angen ail-gychwyn yr economi, gydag ymwelwyr yn dychwelyd i'r ardal dros y misoedd nesaf. Felly, mae ymatebwyr ar hyn o bryd yn mwynhau'r parc 'tawel' ond yn deall na fyddai'n ddichonadwy parhau â hyn yn y tymor hir.

Dewis B mewn gwirionedd yw'r sefyllfa yn ystod Ebrill-Mehefin 2020 o ganlyniad i neges 'Arhoswch yn Lleol' Llywodraeth Cymru, a'r 'rheol 5-milltir' cysylltiedig. Yr oedd felly yn gwahaniaethu rhwng y sawl oed dyn lleol a'r rhai nad oeddent yn lleol, ac wrth gwrs, tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwy fyddai i 'mewn' a phwy 'allan', gan nodi fod hyn eisoes yn achosi gwrthdaro a phroblemau yn y cymunedau lleol. Cyfeiriodd nifer o sylwadau at bobl yn cymryd arnynt eu hunain i blismona teithio, ac at wrthdaro a drwgdeimlad rhwng pobl leol a rhai (y tybiwyd) nad oeddent yn lleol, er bod rhai ohonynt mewn gwirionedd yn byw yn yr ardal. Dywedodd rhai eu bod wedi gweld neu wedi profi digwyddiadau eithaf blin ac ymosodol, sy'n awgrymu fod problemau gwleidyddol ynghlwm â'r dewis hwn, yn ychwanegol at y ffaith ei fod yn ymarferol heriol, o gofio nad oes gan y wladwriaeth adnoddau di-ben-draw i blismona mynediad yn ffurfiol.

Ar faterion athronyddol hawliau, yr oedd pobl ar sbectrwm yn amrywio o'r rhai oedd yn gweld y Parc a'i fuddiannau cysylltiedig fel ased 'Genedlaethol' ac a wrthwynebai'r syniad o gau allan a gwahaniaethu ar egwyddor, i bobl leol oedd yn ei weld fel eu 'tirwedd hwy'. Yr oedd y garfan gyntaf yn gweld ail-agor llawn mor fuan ag sydd modd yn fater o egwyddor.

O gofio mai cam dros dro yw'r dewis hwn, pwnc allweddol yw'r amserlen ar gyfer cynyddu'r pellter y gall pobl deithio ohono. Yr oedd dau ffactor yn dylanwadu ar ddymuniad pobl i weld y Parc Cenedlaethol yn agor mor fuan ag sy'n bosib neu ffafrio oedi:

- Dibyniaeth ar dwristiaeth am incwm (ffafrio ail-agor yn fuan)
- Ofn y feirws (ffafrio ail-agor yn arafach)

gydag ymatebwyr yn cydnabod i raddau helaeth fod angen cadw cydbwysedd rhwng y ddau. Teimlai rhai bod cyfyngiadau ar wyliau tramor o'r DU yn golygu y byddai'r tymor prysur yn brysurach nag arfer a buasent naill ei eisiau oedi'r ail-agor tan ddiwedd yr haf, neu o leiaf yr hoffent gael cyfnod i fwynhau'r Parc Cenedlaethol eu hunain a'r awyrgylch unigryw a grëwyd cyn ail-agor.

O ran mynediad i bobl leol, yr oedd llawer o ymatebwyr yn anhapus fod rhai mannau yn y Parc Cenedlaethol wedi cau, hyd yn oed i bobl leol, ar waethaf rheol 5-milltir Cymru, sy'n golygu yn ddamcaniaethol mai dim ond pobl leol all ymweld ar hyn o bryd beth bynnag. Felly mae rhai pobl leol yn gallu mynd yn rhwydd i'w hardal leol, ond eraill heb fedru gwneud hynny. Yn wir, tybiai rhai ar gyfer Dewis B, mai cyfyngiad pellter fel y rheol 5-milltir oedd y ffordd fwyaf synhwyrol i benderfynu lle gallai pobl fynd i'w gweld. Fodd bynnag, rheol gan Lywodraeth Cymru yw hon. Petai Llywodraeth Cymru yn llacio'r rheol, rhywbeth na fydd gan y Parc Cenedlaethol lawer o ddylanwad drosto, byddai llawer o bobl yn syth yn gallu teithio o bellter ac y byddai'r Parc Cenedlaethol trwy ddiffiniad yn hollol agored. (Dewis D). Yr oedd rhai ymatebwyr felly yn hoffi Dewis B ond yn teimlo y gallai weithio'n unig ar y cyd a chyfyngiadau teithio ehangach rhanbarthol neu Gymru-gyfan.

***Cyfyngu ar nifer y defnyddwyr o'r tu allan i'r ardal***

Nid oedd y dewis hwn yn boblogaidd gan lawer o ymatebwyr, gyda dim ond 29.9% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn tueddu i gytuno neu'n cytuno'n gryf â'r dewis hwn. Y prif bryderon am y dewis hwn yw y byddai'n anodd iawn ei orfodi ac y gallai hefyd arwain at raniadau rhwng grwpiau o ddefnyddwyr. Petai dewis o'r fath yn cael ei fabwysiadu, yna byddai angen cynllunio arfau newydd yn ofalus iawn, megis archebu ymlaen llaw ar gyfer parcio a gweithgareddau hamdden.

Yr oedd llawer o ymatebwyr yn meddwl y byddai'r neges yn cael ei gyfleu yn genedlaethol fod y Parc yn agored ac y byddai pobl yn teithio yno heb fwrw golwg i weld a oedd unrhyw gyfyngiadau. Byddai mwy na'r niferoedd gosodedig yn cyrraedd, gan greu llanast. Yr oedd rhai pobl leol yn hoffi'r syniad o ddogni gan eu bod yn teimlo fod gormod o dwristiaeth yn broblem yn gyffredinol, ac yr oedd eraill yn gwrthwynebu dogni mewn egwyddor. Ar y cyfan, fodd bynnag, teimlai'r mwyafrif helaeth na fyddai modd i hyn weithio, gan y byddai angen rhoi systemau archebu ar waith a'u plismona. Fel cam dros dro cyn ail-agor yn llawn, byddai hwn felly yn ddewis cymhleth a drud, ac efallai na fyddai'r seilwaith na'r arian ar ei gyfer ar gael.

***Y Parc yn agored i bawb***


Hwn oedd y dewis lleiaf poblogaidd, gyda 29.3% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn dueddol o gytuno neu'n cytuno'n gryf â'r dewis hwn am y tro (Mehefin 2020). Dewis D yw'r un lleiaf cymhleth gan nad yw'n gofyn am unrhyw reolaeth arbennig yn y cyfamser, dim ond dychwelyd i bethau fel yr oeddent, ond yma eto, yr oedd yr ymatebion wedi eu pegynnu rhwng y sawl oedd yn pwysleisio'r economi a dibyniaeth ar dwristiaeth, gan bwyso am ail-agor yn syth neu yn sydyn, ac ofn effeithiau iechyd COVID, gan ffafrio oedi. Yr oedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod yr angen am gydbwysedd rhwng y ddau, felly'r unig benderfyniad ar ôl oedd pryd yn union fyddai'r amser iawn i lacio'r cyfyngiadau presennol (Dewis B, fwy neu lai) a symud i Ddewis D.

Yn ôl y cyfranogwyr, er bod ail-agor llawn yn anorfod, byddai ail-agor y parc yn llawn yn gofyn am ystyriaeth ofalus, ac y mae pryderon y gall fod yn rhy gynnar i wneud hyn. O'r rhai oedd yn dueddol o gytuno/cytuno'n gryf gyda'r dewis hwn, yr oedd 26.3 % yn ystyried y dylai hyn ddigwydd ym mis Mehefin a 39.4% ym mis Gorffennaf. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd y byddai angen ystyried penderfyniad o'r fath yn ofalus o ran y cydbwysedd rhwng manteision economaidd, iechyd corfforol a meddyliol y bobl leol, a risg heintiadau COVID-19. Yn ôl rhai ymatebwyr, byddai'r dewis hwn hefyd yn galw am reoli'r parc yn ofalus iawn er mwyn osgoi gorlenwi fyddai hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar allu'r timau achub mynydd.

Dylem nodi, ers cyhoeddi'r holiadur hwn, fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y codir cyfyngiadau teithio unwaith y bydd y dystiolaeth wyddonol a meddygol yn caniatau, a'r gobaith ar hyn o bryd y bydd hyn yn digwydd ar 6 Gorffennaf. Felly Dewis D yn y pen draw yw'r dewis mwyaf realistig a'r hawsaf i Awdurdod y Parc ei reoli.

# ARFAU POLISI I REOLI GORLENWI YM MHARC CENEDLAETHOL ERYRI


Ymchwiliodd yr holiadur hefyd i nifer o arfau polisi ar gyfer rheoli gorlenwi. Y dulliau mwyaf poblogaidd oedd ap symudol i rybuddio pobl am ddigwyddiadau o orlenwi, cyfyngu mynediad i rai llwybrau, a datblygu ap symudol fel y gall pobl roi gwybod am ymddygiad anghyfrifol (Ffigwr 4).




**Ffigwr 4. Arfau polisi i reoli gorlenwi ym mharc cenedlaethol eryri (Gwerthoedd cymedrig, ystod –2, 2)**

# LEFEL YMDDIRIEDAETH MEWN SEFYDLIADAU A CHEFNOGAETH I'R PARC CENEDLAETHOL

Mae lefel y gefnogaeth i waith y Parc Cenedlaethol yn uchel iawn, gyda mwy na 80% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn *gefnogol* neu yn *gefnogol iawn* (Ffigwr 5). Yn yr un modd, mae lefel yr ymddiriedaeth yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn gymharol uchel, gyda sgôr cymedrig o 3.42 wedi'i fesur mewn cyfradd 5-pwynt (5 oedd y lefel uchaf o ymddiriedaeth). APCE yw'r sefydliad y mae mwyaf o fydd ynddo, o gymharu â chynghorau lleol (2.80 o 5), Llywodraeth Cymru (2.85 o 5) a Llywodraeth y DU (1.99 o 5).




**Ffigwr 5. Lefel cefnogaeth i'r Parc Cenedlaethol**

# NODWEDDION Y SAMPL A CHYFYNGIADAU

Fel gyda'r rhan fwyaf o arolygon ar-lein, y mae rhai cyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddarllen y canlyniadau hyn:

- Mae pobl heb fynediad at y rhyngrwyd wedi eu heithrio o'r astudiaeth, gan mai ar-lein y cafodd ei dosbarthu. Gall hyn hefyd esbonio'r ganran isel o bobl yn y categori dros 75 oed.
- Mae canran cymharol uchel o bobl gyda graddau addysg uwch yn y sampl; felly hefyd y categorïau incwm uwch (Tabl 2). Efallai mai'r dull dosbarthu sydd i gyfrif am hyn.

**Tabl 2. Nodweddion y sampl**

| **Categori oedran** | **%** |
|---|---|
| 18-25 | 2.4 |
| 26-35 | 16.2 |
| 36-45 | 20.5 |
| 46-55 | 27.7 |
| 56-65 | 22.3 |
| 66-75 | 9.8 |
| 76-85 | 0.2 |
| 85+ | 0.2 |
| **Rhyw** | **%** |
| Male | 50% |
| Female | 50% |
| **Addysg** | **%** |
| Cwblhau addysg i lefel ysgol gynradd/ Dim cymwysterau ffurfiol | 1.1 |
| Cymwysterau lefel mynediad | 0.2 |
| Cymwysterau lefel addysg uwchradd (e.e. Lefel O TAG, TAU, TGAU, NVQ/BTEC Lefelau 1-2 | 6.3 |
| Lefel chweched dosbarth (e.e. Lefelau A/AS, NVQ/BTEC Lefel 3) | 10.9 |
| Addysg Bellach/ uwch | 45.9 |
| Gradd ôl-raddedig (e.e. Meistr, PhD. NVQ Lefel 5) | 35.6 |
| **Incwm** | **%** |
| Dim incwm | 2.6 |
| hyd at £25,000 | 23.3 |
| £25000- hyd at £50,000 | 35.9 |
| £50,000-£70,000 | 17.2 |
| dros £70,000 | 9.6 |